


1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A210387	16-04-2021	Mr E Jenkins	Proposed affordable dwelling to include installation of vehicular access and package treatment plant.	Land adjacent to Glownant, Talsarn, SA48 8QE	Refuse
2	A220202	11-03-2022	Mr Ifan Jones Evans	Replacement of an abandoned dwelling.	Land at Pantyffynnon Isaf, Ysbyty Ystwyth, SY25 6DG	Refuse

1.1. A210387



Rhif y Cais / Application Reference	A210387
Derbyniwyd / Received	16-04-2021
Y Bwriad / Proposal	Proposed affordable dwelling to include installation of vehicular access and package treatment plant.
Lleoliad Safle / Site Location	Land adjacent to Glownant, Talsarn, SA48 8QE
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr E Jenkins, Llechwedderi Uchaf, Llanwnnen, Lampeter, Ceredigion, SA48 7LF
Asiant / Agent	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan Y Dderwen, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5ED

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae safle'r cais yn ymwneud â chae amaethyddol wedi'i leoli rhyw 2.2km o bentref Talsarn. Nid oes hanes cynllunio perthnasol yn perthyn i safle'r cais.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Gofynnir am ganiatâd cynllunio llawn i godi annedd fforddiadwy ynghyd â mynediad a chyfleuster parod i drin carthion. Bwriedir i'r annedd fesur 11.5m wrth 8.55m gan ddarparu ôl troed o rhyw 98 metr sgwâr. Darperir ar gyfer ystafell fyw, cegin/ystafell fwyta cynllun agored, swyddfa, cegin fach ac ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod. Bwriedir i'r llawr cyntaf, sydd ag ôl troed o 57 metr sgwâr, ddarparu tair ystafell wely ac ystafell ymolchi. Mae'r mynediad arfaethedig ar yr ystlyslun. Mae'r wedd flaen i gael tair ffenestr ddormer ar y llawr cyntaf.

Mae deunyddiau'r annedd arfaethedig yn cynnwys waliau llyfn wedi'u rendro a'u peintio, a godreion bric; ffenestri, drysau, ffasgiâu a soffitiau uPVC llwyd tywyll ynghyd â tho o lechi naturiol. Mae uchder yr annedd yn rhyw 2.8m i'r bondo a 6.6m i'r crib to.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisi Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021)

- TAN12 - Dylunio (2016)
- TAN2 - Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN5 - Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
-
-

Mae'r polisïau a ganlyn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04: Datblygu Mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiad Tai
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
-
-

DM10 Dylunio a Thirweddu

- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol

Canllawiau Cynllunio Atodol Mabwysiedig Perthnasol:

Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion

- Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Canllawiau Cynllunio Atodol Gwarchod Natur
- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy
- Tafenni Cymorth Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hynny ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall, yn rhesymol, i atal troseddau ac anhrefn. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd mawr neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dynodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig' sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r uchod wrth wneud penderfyniad ynghylch y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt yn fwy nag ar unrhyw un arall.

DEDDF LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant sy'n rhan o'r Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION I'R YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Nantcwnlle - Cefnogi

Priffyrdd - Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau.

Draenio Tir - Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau

Ecoleg - Ni dderbyniwyd ymateb

Cyfoeth Naturiol Cymru - Dim gwrthwynebiad

Dŵr Cymru Welsh Water - Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau

Derbyniwyd tri llythyr o gefnogaeth yn nodi bod tai fforddiadwy yn bwysig er mwyn caniatáu i deuluoedd lleol fyw a chefnogi

cymunedau.

Codir pryderon gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ynghylch maint yr annedd fforddiadwy arfaethedig a'i lleoliad.

CASGLIAD

Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Egwyddor Datblygu

Mae safle'r cais yn gorwedd o fewn 'lleoliadau eraill' fel a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig lle bo datblygiadau'n cael eu rheoli'n dynn er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy ac amddiffyn cefn gwlad agored. Mae Polisi S04 y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi bod tai yn gyffredinol yn anaddas mewn 'lleoliadau eraill' oni bai y cyfiawnheir eu bod ar y sail eu bod yn bodloni angen nas diwallwyd am dai fforddiadwy yn yr ardal, ac y gellir dangos hynny. Mae'r Polisi hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i dai fforddiadwy gael eu lleoli yn union gerllaw grwpiau o anheddau sy'n bodoli, yn unol â bwriadau Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 9.2.22. Er bod Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddarau ers hynny, mae paragraff 3.60 yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau yng nghefn gwlad fod wedi'u lleoli o fewn aneddiadau cyffiniol lle y gellir darparu orau ar eu cyfer o ran seilwaith, mynediad, cadwraeth cynefinoedd a thirweddau ac mae'n datgan y gall mewnlenni neu roi estyniadau bach ar aneddiadau sy'n bodoli fod yn dderbyniol yn enwedig pan fônt yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy, ond bod yn rhaid parhau i reoli'n dynn adeiladau newydd yng nghefn gwlad sydd i ffwrdd o aneddiadau sy'n bodoli.

Mae tri eiddo o fewn 100m o'r safle ac mae'r anheddiad agosaf rhyw 2.2km i ffwrdd (Talsarn). Felly, nid yw'r cais wedi'i leoli o fewn anheddiad (neu grŵp) ac mae'n groes i bolisi lleol a chenedlaethol, sef Polisi Cynllunio Cymru a pholisïau S01 ac S04 y Cynllun Datblygu Lleol gan ei fod wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored.

Mae'r ymgeisydd wedi nodi yn y datganiad cefnogi ei fod yn gwneud gwaith ar fferm y teulu (a gwaith llawnamser fel Rheolwr TG). Felly, os mai dyma'r rheswm am yr angen am annedd yn y lleoliad hwn, mae wedi cael ei nodi i'r ymgeisydd y dylai'r cais fod am annedd fenter wledig yn hytrach nag annedd fforddiadwy. Fodd bynnag, nid yw'r ymgeisydd yn dymuno hyn.

O ran yr angen am annedd fforddiadwy, mae'r asiant wedi cyflwyno datganiad yn nodi bod yr ymgeisydd wedi cael y tir yn rhodd gan ei rieni ac nad yw cost y llain tir, felly, yn ystyriaeth. Mae manylion am dai eraill sydd ar werth wedi'u darparu. Gwerthfawrogir bod nifer ohonynt y tu hwnt i gyllideb yr ymgeisydd; eto i gyd y mae rhai eiddo o fewn y gyllideb hon ac nid yw'r rhesymau a roddir ynghylch eu hanaddasrwydd yn hynod o gryf.

Gofynion o ran Nodweddion Corfforol

Amlinellir isafswm ac uchafswm yr arwyneb llawr net ar gyfer tŷ fforddiadwy yn atodiad 4 Tafenni Cymorth Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy (gweler tudalen 10). Mae'r uchafswm safon yn 137 metr sgwâr. Fel a nodir uchod, mae'r arwyneb llawr net yn rhyw 155 metr sgwâr ac felly'n fwy na'r uchafswm a ganiateir am dŷ fforddiadwy.

Effaith ar Amwynder Preswyl

Gan fod lleoliad y cynnig mewn cefn gwlad agored, nid yw'r eiddo cyfagos yn hynod o agos iddo. Felly, ni fydd y cynnig yn effeithio ar amwynder unrhyw eiddo.

Materion Eraill

Nid yw'r Awdurdod Prifffyrdd Lleol a'r adran draenio tir wedi codi unrhyw wrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau.

Mae safle'r cais wedi'i leoli y tu allan i Ddalgyrch Ardal Cadwraeth Arbennig y Teifi.

Pwerau Dirprwyedig

Mae'r Cynghorydd Lynford Thomas wedi gofyn ar i'r cais cael ei ddwyn ger bron y Pwyllgor Rheoli Datblygu i benderfynu arno am y rhesymau a ganlyn:

1. Cefnogi unrhyw deulu Cymraeg lleol sydd am godi tŷ yn ei ardal leol.
2. Nid yw'n cytuno bod y safle mewn lleoliad 'cefn gwlad agored' gan fod tai gerllaw.
3. Mae angen tai fforddiadwy yng nghefn gwlad Ceredigion.
4. Mae'r ymgeisydd wedi cydymffurfio â gofynion yr Adran Gynllunio.
5. Cefnogi cwpl ifanc a fydd yn cefnogi'r busnes teuluol a'r gymuned leol.

ARGYMHELLIAD:

Argymhellir bod y cais yn cael ei wrthod am y rhesymau a ganlyn:

1. Byddai'r cais yn golygu bod annedd fforddiadwy newydd mewn cefn gwlad agored a lleoliad anghynaliadwy na

RHESWM DROS OHIRIO:

Cyflwynwyd y cais yn wreiddiol i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y 10fed o Dachwedd, 2021, lle gohiriwyd penderfyniad ar y cais, er mwyn caniatáu mwy o amser neu cyfnod ailfeddwl i ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau ac er mwyn galluogi'r pwyllgor i dderbyn cyngor pellach ar arwyddocâd yr ymadawiad a'r risgiau cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Adroddwyd y cais i'r Grŵp Oeri ar y 23ain o Dachwedd, 2021, lle gytunwyd y dylid gwneud argymhelliad i ofyn am wybodaeth ychwanegol a allai gyfiawnhau'r cais fel annedd menter wledig TAN6, o ystyried bod yr ymgeisydd wedi dweud yn flaenorol ei fod yn helpu ar y fferm deuluol gyfagos. Pe na bai'r wybodaeth yn dod, argymhellwyd bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn ailymweld â'r cais, i'w ystyried fel cais am dŷ fforddiadwy.

Cyflwynwyd ymatebion gan yr ymgeisydd yn Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022 ond ystyriwyd bod y wybodaeth yn annigonol, ar ôl cael ei hystyried mewn cyfarfodydd y Grŵp Oeri dilynol ym mis Ionawr 2022.

Felly cynhaliwyd cyfarfod gyda'r ymgeisydd ym mis Mawrth 2022 lle pwysleisiodd yr ACLI yr angen i ddarparu cyfiawnhad, fodd bynnag cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd ganddo unrhyw beth pellach i'w ychwanegu. Rhoddwyd gwybod i'r ymgeisydd y byddai'n anodd cael cymorth heb wybodaeth ychwanegol, a chytunodd yr ACLI i rhoi mis ychwanegol i'r ymgeisydd i ailystyried. Fodd bynnag yn ystod y cyfnod hwn ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth pellach.

Yng nghyfarfod y Grŵp Oeri ar y 3ydd o Dachwedd 2022, gofynnodd yr Aelodau bod cyswllt pellach yn cael ei wneud gyda'r ymgeisydd er mwyn holi, am y tro olaf, a oedd yn dymuno cyflwyno cyfiawnhad a gwybodaeth ychwanegol i gefnogi annedd menter wledig ar y safle, cyn i'r mater gael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn gwneud penderfyniad terfynol arno.

Mewn ymateb i hynny, ail-gyflwynodd yr ymgeisydd yr ymatebion yr oedd eisoes wedi eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022. Ailadroddodd hefyd ei safbwynt y byddai ond yn ystyried newid y cynnig i annedd menter wledig TAN6 pe na bai ynghlwm wrth y fferm.

Felly, gan nad oes "Arfarniad Anedd Menter Wledig" llawn wedi cael ei gyflwyno, ni ddangoswyd bod y cynnig yn bodloni'r profion perthnasol fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 6. Felly, ni ellir rhoi cefnogaeth yn hyn o beth.

Cafodd y cais ei glywed eto gan y Grŵp Oeri ar y 1af o Rhagfyr, 2022, lle gytunwyd yn unfrydol i argymhell i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu bod y cais yn cael ei wrthod gan nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer tai fforddiadwy, nid yw wedi'i leoli o fewn neu gerllaw grwpiau o anheddau presennol, ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o annedd menter wledig (TAN6).

Mae'r argymhelliad i wrthod felly yn sefyll, gan y byddai'r cais yn arwain at annedd fforddiadwy newydd o fewn lleoliad cefn gwlad agored anghynladwy na ellir ei gyfiawnhau, yn groes i bolisïau cynllunio cenedlaethol a lleol sydd wedi hen ennill eu plwyf a byddai cefnogi cais o'r fath yn peri risgiau sylweddol i'r Cyngor.

Rhif y Cais / Application Reference	A210387
Derbyniwyd / Received	16-04-2021
Y Bwriad / Proposal	Proposed affordable dwelling to include installation of vehicular access and package treatment plant.
Lleoliad Safle / Site Location	Land adjacent to Glownant, Talsarn, SA48 8QE
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr E Jenkins, Llechwedderi Uchaf, Llanwnnen, Lampeter, Ceredigion, SA48 7LF
Asiant / Agent	Mr Gareth Flynn (Morgan & Flynn Architectural Services), Tan Y Dderwen, Llanrhystud, Ceredigion, SY23 5ED

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site relates to an agricultural field located approximately 2.2km from the village of Talsarn. The application site has no relevant planning history.

DETAILS OF DEVELOPMENT

Full planning permission is sought for the erection of an affordable dwelling along with an access and package treatment plant. The dwelling is proposed to measure 11.5m by 8.55m providing a footprint of approximately 98sqm. The ground floor is to accommodate a living room, open plan kitchen/dining, home office, utility and bathroom. The first floor, which has a footprint of 57sqm is proposed to accommodate three bedrooms and a bathroom. The access is proposed to be on the side elevation. The front elevation is to have three dormer windows on the first floor.

The materials of the proposed dwelling are to include smooth painted render walls with a brick plinth; anthracite grey uPVC windows, doors, fascias and soffits along with a natural slate roof. The height of the dwelling is approximately 2.8m to eaves and 6.6m to ridge.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Relevant National Planning Policy

- Future Wales: The National Plan 2040
- PPW Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- TAN12 Design (2016)
- TAN2 Planning and Affordable Housing (2006)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- S05 Affordable Housing
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU04 Meeting a Range of Housing Needs
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM10 Design and Landscaping
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape

Relevant adopted Supplementary Planning Guidances:

- CCC Parking Standards SPG
- Built Environment and Design SPG
- Nature Conservation SPG
- Affordable Housing SPG

- Affordable Housing SPG Help Sheets

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Nantcwnlle Community Council - Support

Highways - No Objection Subject to Conditions

Land Drainage - No Objection Subject to Conditions

Ecology -

Natural Resources Wales -

Dwr Cymru Welsh Water - No Objection Subject to Conditions

3 letters of support have been received noting that affordable housing is important to allow local families to live and support the communities.

Concerns are raised by the Campaign for the Protection of Rural Wales on the scale of the proposed affordable dwelling and siting.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Principle of Development:

The application site lies within 'other locations' as identified within the adopted Local Development Plan (LDP) where

development is strictly controlled in the interest of achieving sustainable development and protecting the open countryside. LDP Policy S04 states that general housing is inappropriate within 'other locations' unless justified on the basis that it meets a demonstrated unmet affordable housing need in the locality. The Policy also requires affordable housing to be located immediately adjacent to existing groups of dwellings in line with the intentions of Planning Policy Wales (PPW) paragraph 9.2.22. Whilst PPW has since been updated, paragraph 3.60 continues to require development in the countryside to be located within and adjoining settlements where it can best be accommodated in terms of infrastructure, access, habitat and landscaping conservation, and states that infilling or minor extensions to existing settlements may be acceptable in particular where they meet a local need for affordable housing, but that new building in the open countryside away from existing settlements must continue to be strictly controlled.

There are three properties within 100m of the site with the nearest settlement being approximately 2.2km away (Talsarn). Therefore, the proposal is not located within a settlement (nor group) and is contrary to national and local policy, namely PPW and LDP policies S01 and S04, as it is located within an open countryside location.

The applicant has noted in the supporting statement that he undertakes work on the family farm (full-time work as an IT Manager). Therefore, it has been noted to the applicant that if this is the case for needing a dwelling at this location, the proposal should instead be for a rural enterprise dwelling and not an affordable dwelling. The applicant however does not wish for this.

In terms of affordable housing need, a statement has been submitted by the agent which states that the applicant has been gifted the land by his parents and therefore, the cost of a plot is not an issue. Details on other houses that are for sale have been provided. Whilst it is appreciated that many are over the applicants' budget, there are some properties within this budget and the reasons given for why they are not suitable are not extremely strong.

Physical Characteristics Requirements

The minimum and maximum net floor area for an affordable home is set out within appendix 4 of the Affordable Housing SPG Help Sheets (see page 10). The absolute maximum standard is 137sqm. As noted above the net floor area is approximately 155sqm and is therefore, above the maximum allowed for an affordable dwelling.

Impact on Residential Amenity

Due to the location of the proposal being within the open countryside, the nearby properties are not within extremely close proximity. Therefore, the proposal will not impact on the amenity of any properties.

Other Matters

The LHA and land drainage department have raised no objection subject to conditions.

The application site is located outside of the Teifi SAC Catchment Area.

Delegated Powers

Cllr Lynford Thomas has requested that the application be taken to Development Control Committee to be decided for the following reasons:

1. Support any local Welsh family that want to build in their local area.
2. Does not agree that the site is within an 'open countryside' location as there are houses nearby.
3. Need affordable houses in Ceredigion's countryside.
4. Applicant has complied with requirements of Planning Department.
5. Support a young couple that will be a support to the family business and local community.

RECOMMENDATION:

The application is recommended for refusal for the following reasons:

1. The application would result in a new affordable dwelling within an unjustified open countryside and unsustainable location contrary to national planning policy set out within Planning Policy Wales and Technical Advice Note (TAN) 2: Planning and Affordable Housing (2006) and the adopted Local Development Plan, policies S01 and S04.

REASON FOR DEFERRAL:

The application was originally reported to the Development Management Committee on the 10th November, 2021, whereby the determination of the application was deferred, in order to allow further time or a 'cooling off' period to consider the points raised by Members and so that the Committee received further advice on the significance of the departure and risks prior to making a final decision.

The application was subsequently reported to the Cooling Off Group on the 23rd November, 2021, whereby it was agreed that a recommendation be made to request additional information that may be able to justify the application as a TAN 6 rural enterprise dwelling, given that the applicant had previously indicated that he helps out on the nearby family farm. If the

information was not forthcoming, it was recommended that the application be revisited by the Task and Finish Group, to consider as an affordable housing application.

Responses were submitted by the applicant in December 2021 and January 2022, however the information was considered to be insufficient, after being considered at subsequent Cooling Off Group meetings in January 2022.

A meeting was therefore held with the applicant in March 2022, where the LPA emphasised the need to provide justification, however the applicant confirmed he had nothing further to add to his previous responses. The applicant was advised that it would be difficult to gain support without additional information, and the LPA agreed to give the applicant a month to reconsider. During this time however no further information was received.

At the meeting of the Cooling Off Group on the 3^d November, 2022, Members requested that further contact be made with the applicant, in order to enquire one final time, as to whether or not he wished to submit any additional information and justification in support of a rural enterprise dwelling at the site, prior to the matter being reported back to the Development Management Committee for a final decision.


In response, the applicant re-submitted the responses which he'd already submitted in December 2021 and January 2022. He also reiterated his position that he would only consider altering the proposal to a TAN6 rural enterprise dwelling, if it were not tied to the farm.

In the absence of a full "Rural Enterprise Dwelling Appraisal", it has therefore not been demonstrated that the proposal meets the relevant tests as set out within Technical Advice Note 6. Support cannot therefore be forthcoming in this regard.

The application was subsequently heard again by the Cooling Off Group on the 4th December, 2022, whereby it was unanimously agreed that it be recommend to the Development Management Committee that the application is declined as it does not meet the criteria for affordable housing, neither is it located in or adjacent to existing groups of dwellings, and no evidence of a rural enterprise dwelling (TAN 6) has been provided.

The recommendation to refuse therefore stands, as the application would result in a new affordable dwelling within an unjustified and unsustainable open countryside location, contrary to well-established national and local planning policies, and supporting such an application would pose significant risks to the Council.

1.2. A220202



Rhif y Cais / Application Reference	A220202
Derbyniwyd / Received	11-03-2022
Y Bwriad / Proposal	Replacement of an abandoned dwelling.
Lleoliad Safle / Site Location	Land at Pantyffynnon Isaf, Ysbyty Ystwyth, SY25 6DG
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr Ifan Jones Evans, Rhosyrhiw, Devils Bridge, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6DX
Asiant / Agent	Mrs Gwennan Jenkins (JMS Planning and Development), Hafan Y Coed, Maeshyfryd, Lampeter, SA48 8AN

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae'r cais yn cyfeirio at yr annedd gynt a adnabyddir fel Pantyffynnon, sydd wedi'i lleoli tua 1.65km i'r dwyrain o anheddiad Pontrhydygroes. Mae'r ffermdy gynt wedi'i leoli mewn ardal anghysbell mewn pant ym Mynyddoedd Cambria gerllaw Nant Seran, sef llednant o'r afon Ystwyth. Ceir mynediad i'r eiddo a thŷ allan cysylltiedig ar hyd trac sy'n ymuno â'r ffordd Sirol sy'n arwain at Ysbyty Ystwyth i'r gorllewin. Mae llwybr troed cyhoeddus yn rhedeg rhwng yr annedd gynt a'r tŷ allan. Roedd yr eiddo'n rhan o Ystâd Hafod yn flaenorol, ond cafodd ei werthu, ynghyd â 141 o aceri yn 1947.

Does dim hanes cynllunio i'r adeilad hwn.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn un llawn ac mae'n gofyn caniatâd cynllunio i ddymchwel y rhannau sy'n weddill o'r annedd a chodi annedd arall yn ei lle.

Mae gweddillion Pantyffynnon yn cynnwys yn bennaf rhannau o'r bedair prif wal, gydag ond ychydig o'r nodweddion ar ôl. Roedd Pantyffynnon yn adeilad carreg gyda tho llechi naturiol. Y bwriad yw codi annedd yn dilyn yr un ôl troed â'r un bresennol, gydag estyniad deulawr yn cael ei adeiladu yng nghefn yr eiddo i gymryd lle nodwedd to goleddf hir, i ddarparu tŷ unllawr-a-hanner gyda thair ystafell wely. Bydd yr adeilad newydd yn un o gerrig a llechi naturiol a bydd y ffenestri'n rhai upvc.

Bydd cerbydau'n cael mynediad i'r eiddo ar hyd y trac mynediad presennol, gyda'r brif ardal barcio a throi wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r adeilad. Ymdrinnir â charthffosiaeth drwy gyfleuster parod i drin carthion

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- LU08 Codi Anheddau i Gymryd Lle Rhai Presennol
- LU09 Ail-ddefnyddio Anheddau Blaenorol/y Cefnwyd Arnynt
- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- S05 Tai Fforddiadwy

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyfoeth Naturiol Cymru – Yn mynegi pryder ond yn dweud y gellir goresgyn materion sy'n ymwneud â gwarchod adar yn y SoDdGA gerllaw drwy osod amod sy'n cyflwyno mesurau lliniaru.

Archaeoleg Dyfed – Dim gwrthwynebiad yn unol ag amod yn gofyn bod arolwg ffotograffig priodol yn cael ei gynnal cyn dechrau ar y gwaith.

Dŵr Cymru – Dim sylwadau

CC Ysbyty Ystwyth – Yn mynegi pryderon ynghylch creu traciau anawdurdodedig i'r adeilad a phryder ynghylch y perygl o lygru cwrs dŵr cyfagos.

Priffyrdd Ceredigion – Dim gwrthwynebiad yn unol ag amodau

Draenio Ceredigion - Sylwadau

Hawliau Tramwy Ceredigion - Sylwadau

Derbyniwyd sylw gan un trydydd parti yn gwrthwynebu'r cais ar sail y ffaith bod yr adeilad wedi adfeilio gormod i'w drawsnewid; bod trac wedi'i adeiladu at yr eiddo heb ganiatâd; a byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail peryglus.

CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: *"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise"*.

